

MAE SGILIAU'N BWYSIG

Cynllun Grant Adeiladau Hanesyddol: Datblygu Sgiliau a Chyfleoedd Mynediad

1. Cyflwyniad

2. Pwy sydd angen datblygu sgiliau?

3. Mathau o weithgarwch datblygu sgiliau

Hyfforddiant ar gyfer contractwyr a chrefftwyr

Sgyrsiau Rhagarweiniol Treftadaeth

Mentora a chysgodi gwaith

Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu - cardiau CSCS

Newydd-ddyfodiaid neu ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r sector adeiladu traddodiadol

Profiad gwaith

Lleoliadau gwaith

Prentisiaethau

Bwrsariau

Diwrnodau hyfforddi ar y safle

Gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys penseiri a syrfewyr

Gweithdai, lleoliadau a gweithgareddau eraill

Perchenogion adeiladau, staff a gwirfoddolwyr

Gwaith cynnal a chadw ac ôl-ofal

4. Cyfleoedd mynediad

5. Cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gweithgareddau mynediad drwy grantiau adeiladau hanesyddol

Cyflwyno gweithgareddau drwy'r contract adeiladu

Camau allweddol o'r contract adeiladu

1. Cyflwyno cais am grant adeiladau hanesyddol

2. Ymgorffori gweithgareddau sgiliau a mynediad mewn dogfennau contract

3. Gwerthuso tendrau a dyfarnu contractau

4. Rheoli contractau

5. Adborth ac adolygu

Cyflwyno gweithgareddau y tu allan i'r contract adeiladu

6. Cysylltiadau defnyddiol

Cyngor ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa

Porth Sgiliau

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru

Y Grŵp Hyfforddi Treftadaeth Cenedlaethol (NHTG)

Prentisiaethau

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

Y Prentis

Sgiliau Adeiladu Cyfle

Cynlluniau bwrsariaeth

Cynllun Bwrsariaeth Adeiladu ein Treftadaeth

Grwpiau hyfforddiant

CSCS ac Asesiadau a Hyfforddiant ar y Safle

Atodiad: Cymal Enghreifftiol o Gontract

I. Cyflwyniad

Nod y canllawiau hyn yw helpu ymgeiswyr grant i greu cyfleoedd datblygu sgiliau a mynediad drwy eu prosiectau. Er na fydd yn bosibl cyflawni'r rhain ym mhob sefyllfa, rydym yn disgwyl gweld rhyw fath o weithgarwch yn y rhan fwyaf o achosion. Gall hyd yn oed wneud gwahaniaeth o ran p'un a gaiff eich cais ei gymeradwyo.

Mae Cadw yn annog y cyfleoedd datblygu hyn fel ffordd o helpu i fynd i'r afael â'r prinder crefftwyr â sgiliau adeiladu traddodiadol yng Nghymru. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i sicrhau bod gennym amgylchedd hanesyddol a gaiff ei ddiogelu'n dda, ei ddeall yn dda a'i reoli'n dda ac a werthfawrogir gan y gymuned. Gan fod gwaith i adnewyddu a chynnal a chadw'r stoc adeiladau bresennol yn cyfrif am bron i hanner yr holl wariant yn y diwydiant adeiladu, mae'r sgiliau hyn hefyd yn hanfodol i economi Cymru.

Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd Cadw yn nodi bod yn rhaid i gynghorwyr proffesiynol allweddol feddu ar achrediad cadwraeth priodol o sefydliad proffesiynol a gydnabyddir er mwyn gweithio ar brosiectau a gaiff gymorth grant. Felly, rydym yn annog gweithwyr proffesiynol i ddefnyddio'r canllawiau hyn fel cyfle i baratoi.

Mae'r canllawiau hyn yn amlygu rhai o'r ffyrdd y gellir ymgorffori cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd mynediad mewn ceisiadau grant a chontractau adeiladu, ac maent yn cynnwys enghreifftiau o arfer da. Yn aml, bydd prosiectau mwy o faint yn cynnig mwy o gyfleoedd, ond bydd hyd yn oed brosiectau bach fel arfer yn gallu cyflwyno rhywfaint o weithgarwch sgiliau neu fynediad. Mae'r canllawiau hyn yn fan cychwyn er mwyn i chi ystyried pa gyfleoedd penodol a all fodoli ar eich prosiect.

Er nad yw'r cynllun grant adeiladau hanesyddol yn cynnig cyllid ychwanegol i dalu am y gweithgareddau hyn, gellir gweithredu llawer o'r awgrymiadau yn adran 3 heb fawr ddim cost, os o gwbl, i'r ymgeisydd.

2. Pwy sydd angen datblygu sgiliau?

Mae hen adeiladau ag adeiladwaith traddodiadol yn cyfrif am tua thraean o'r holl adeiladau yng Nghymru. Gall gwaith a ragnodwyd yn wael neu a wnaed yn wael fod yn niweidiol, i gymeriad a pherfformiad, ac mae'n ddrud i'w unioni. Er mwyn helpu i osgoi hyn, mae angen i bawb sy'n rhan o'r gwaith o ofalu am adeiladau traddodiadol a'u rheoli feddu ar rywfaint o sgil i fod yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys:

- contractwyr a chrefftwyr
- newydd-ddyfodiaid neu ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r sector adeiladu traddodiadol, fel prentisiaid a myfyrwyr ar gyrsiau adeiladu
- adeiladwyr proffesiynol a manylebwyd, yn cynnwys penseiri a syrfewyr
- perchenogion adeiladau, staff a gwirfoddolwyr a fydd yn gyfrifol am ofal parhaus yr adeilad

Astudiaeth achos - Bwthyn Penmaen, Dolgellau

Mae gan Fwthyn Penmaen do llechi, sydd wedi'i osod mewn rhesi sy'n lleihau gyda rhai technegau a manylion adeiladu diddorol. Er eu bod yn gyffredin yng ngogledd Cymru ar un adeg, ni ddeillir y technegau na'r manylion hyn yn dda ac maent yn mynd yn fwyfwy prin bellach. Roedd y bwthyn wedi bod yn wag ers sawl blwyddyn ac roedd y to yn gollwng ac roedd dirfawr angen ei atgyweirio. Creodd hyn gyfle i ddefnyddio prosiect cymorth grant Cadw i ddysgu eraill sut i adnabod a chopio'r technegau toi gwreiddiol.

Gyda chyllid gan Fenter Treftadaeth Treflun Dolgellau ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, defnyddiwyd yr adeilad fel lleoliad ar gyfer cwrs ymarferol 10 diwrnod a oedd yn rhad ac am ddim i gontractwyr toi lleol, syrfewyr adeiladau a phenseiri. Cynhaliwyd y cwrs gan Richard Jordon o'r Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Toi a Terry Hughes o'r Gymdeithas Toeon Cerrig. Cafodd y digwyddiad ei ffilmio hefyd er mwyn darparu adnodd hyfforddi parhaus, a gellir ei lawrlwytho am ddim o wefan y Gymdeithas Toeon Cerrig:

http://www.stoneroof.org.uk/historic/Historic_Roofs/Penmaen_Cottage_2.html

3. Mathau o weithgarwch datblygu sgiliau

Gall rhai o'r gweithgareddau gynnwys dysgu anffurfiol neu hyfforddiant mwy cyffredinol sy'n hyrwyddo arferion adeiladu da, yn cynnwys ymwybyddiaeth o iechyd a diogelwch. Fodd bynnag, lle y bo'n bosibl, mae Cadw yn annog datblygu gweithgareddau a fydd yn helpu hyfforddeion i gael cymhwyster cydnabyddedig mewn sgiliau adeiladu traddodiadol, er enghraifft Diploma Lefel 3 NVQ mewn Sgiliau Treftadaeth, fel gwaith saer maen, gwaith saer neu waith plastro, neu achrediad cadwraeth gan un o'r sefydliadau proffesiynol.

Bydd pob prosiect yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu mathau gwahanol o sgiliau yn dibynnu ar natur a graddau'r gwaith. Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch y gallech eu datblygu.

Hyfforddiant ar gyfer contractwyr a chrefftwyr

'Sgyrsiau Rhagarweiniol Treftadaeth'

Mae llawer o gontractwyr yn cynnal cyrsiau sefydlu ar y safle a sgysiau diogelwch ar ddechrau prosiect er mwyn sicrhau bod gweithwyr yn ymwybodol o weithgareddau ar y safle, yn cynnwys unrhyw oblygiadau iechyd a diogelwch. Mae hyn hefyd yn gyfle da i'w cyflwyno i'r agweddau treftadaeth ar y prosiect.

Gall sgwrs ragarweiniol fer gan y pensaer neu'r syrfëwr fod yn ffordd syml ac effeithiol o godi ymwybyddiaeth. Gallai'r sgwrs ddisgrifio'r canlynol:

- hanes yr adeilad neu'r safle
- beth yw nod y prosiect
- pam y mae'n cael ei gynnal
- ethos cadwraeth ac athroniaeth y prosiect
- pam y mae deunyddiau yn cael eu hadnewyddu a'u cadw lle y bo'n bosibl yn hytrach na rhoi newydd yn eu lle
- beth i gadw golwg amdano yn ystod camau cynnar y prosiect.

Er enghraifft, mae'n eithaf cyffredin i nodweddion pensaernïol neu archeolegol a arferai fod wedi'u cuddio gael eu datgelu yn ystod cam cychwynnol y gwaith. Mae'n bwysig bod y gweithlu'n adnabod nodweddion o'r fath ac y gofynnir am gyngor gan y pensaer neu'r syrfëwr ar gam cynnar. Yn wir, mewn rhai achosion, gall fod yn bosibl defnyddio Sgwrs

Ragarweiniol Treftadaeth fel mesur lliniaru er mwyn helpu i leihau faint o waith diogelu ffisegol sydd angen ei wneud a'r gost sy'n gysylltiedig â hynny.

Gallai eich pensaer neu syrfëwr hefyd baratoi nodiadau neu fideo o'r digwyddiad hyfforddi y gallid eu gadael ar y safle ar gyfer y rhai sydd am ddysgu mwy.

Astudiaeth achos - Pwll Nofio Parc Ynysangharad, Pontypridd

"Cefais y syniad rai blynyddoedd yn ôl i ennyn diddordeb y gweithwyr safle yn y prosiect er mwyn eu hannog i ofalu am yr adeilad a'i elfennau yn well a dangos mwy o barch atynt. Mae llawer o weithwyr wir yn mwynhau dysgu am y prosiect; mae'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi'n fwy ac yn fy marn i, maent yn cynhyrchu crefftwaith gwell ac yn gwneud penderfyniadau gwell yn sgil hynny. *Michael Davies, David Sutton, Penseiri*

Mentora a chysgodi gwaith

Er nad yw mentora a chysgodi gwaith cystal â gweithgareddau hyfforddi mwy ffurfiol, gallent fod yn rhan o raglen dysgu a datblygu strwythuredig. Maent yn dechnegau defnyddiol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i bobl lai profiadol. Fodd bynnag, gallai fod ganddynt fuddiannau pwysig eraill, fel magu hyder ac annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi ffurfiol.

Yn ogystal â helpu unigolion, gellir defnyddio prosesau mentora rhwng sefydliadau. Er enghraifft, gall aelodau o ymddiriedolaeth cadwraeth adeiladau mwy profiadol helpu ymddiriedolaeth newydd drwy rannu eu profiadau.

Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu - cardiau CSCS

Y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS) yw'r prif gynllun cerdyn cymhwysedd ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae'r cynllun yn cadarnhau bod unigolion sy'n gweithio yn yr amgylchedd adeiledig yn meddu ar y cymwysterau, yr hyfforddiant a'r profiad angenrheidiol. Mae sawl math o gerdyn sy'n cwmpasu amrywiaeth eang o alwedigaethau, yn cynnwys gweithredwyr safle, hyfforddeion, gweithwyr medrus a phersonél â chymwysterau proffesiynol.

Mae'r cerdyn Crefft Uwch Aur mewn sgiliau treftadaeth yn cydnabod hyfforddiant a chymhwyster unigolyn hyd at NVQ Lefel 3 yn un o'r sgiliau adeiladu traddodiadol arbenigol, fel gwaith saer ac asiedydd, gwaith saer maen, gwaith plastro neu waith plwm. Mae'n ffordd

ddibynadwy a chludadwy o brofi bod y gweithiwr yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer y gwaith y bydd yn ei wneud.

Yn anffodus, nid oes llawer o berchenogion adeiladau yn ymwybodol o'r cynllun ardystio hwn ac nid ydynt yn gofyn am gardiau CSCS treftadaeth na chardiau cyfatebol wrth ddewis contractwr, er gwaethaf y sicrwydd a roddir ganddo. O ganlyniad, nifer fach o grefftwyr yng Nghymru sy'n defnyddio'r cynllun i sicrhau eu bod yn sefyll allan ymhlith contractwyr llai cymwys a llai profiadol.

Er mwyn dechrau mynd i'r afael â'r broblem hon, gallech nodi bod meddu ar gerdyn CSCS treftadaeth yn un o'r meini prawf rydych yn eu defnyddio i ddewis contractwr. Fodd bynnag, o ystyried y nifer fach o grefftwyr sy'n ddeiliaid cerdyn ar hyn o bryd, mae'n debygol y bydd yr opsiwn hwn wedi'i gyfyngu i grefftau penodol, i ddechrau o leiaf. Er enghraifft, mae Cymdeithas y Contractwyr Plwm wedi bod yn hyrwyddo'r cerdyn CSCS treftadaeth ymysg ei haelodau. Ar rai prosiectau mwy o faint lle mae angen gwaith plwm, efallai y bydd yn bosibl i chi nodi yn y contract adeiladu bod yn rhaid i weithwyr plwm feddu ar Gerdyn Uwch Aur mewn sgiliau treftadaeth neu gymhwyster cyfatebol neu fod yn gweithio tuag ato. Drwy wneud hyn, byddwch yn cael y sicrwydd y mae'r cynllun ardystio yn ei roi a byddwch yn helpu i annog unigolion i fanteisio ar hyfforddiant a chyfleoedd i ennill cymwysterau.

Ar gyfer gweithwyr profiadol nad ydynt yn meddu ar y cymwysterau ffurfiol sydd eu hangen i wneud cais am y cerdyn CSCS treftadaeth, mae llwybr syml a chyflym i gyflawni NVQ Lefel 3 drwy gynllun Asesu a Hyfforddi ar y Safle (OSAT) Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu. Gall llawer o ddarparwyr hyfforddiant gynnig y gwasanaeth hwn.

Yn yr un modd, mae rhai o'r ffederasiynau crefft, fel y Ffederasiwn Cenedlaethol Contractwyr Toi, wedi datblygu llwybr adolygu proffesiynol er mwyn galluogi crefftwyr i gael y gydnabyddiaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn cael eu cardiau CSCS treftadaeth. Pa opsiwn bynnag a ddewisir, ni fydd gweithwyr yn colli amser i ffwrdd o'u gwaith tra byddant yn cael eu hasesu ac efallai y byddant yn gymwys i gael grantiau gan y CITB. Mae'r mathau o brosiectau y mae Cadw yn eu cefnogi yn debygol o gynnig profiad gwaith addas ar gyfer yr asesiad.

Newydd-ddyfodiaid neu ddarpar newydd-ddyfodiaid i'r sector adeiladu traddodiadol

Profiad gwaith

Gall profiad gwaith fod yn gyfle gwyh i ddarpar weithwyr adeiladu gael rhagflas o'r diwydiant. Mae'r CITB yn cynnal rhaglen Experience Construction sy'n cynnig lleoliadau byr i bobl ifanc 16-18 oed. Yn gyfnewid am y profiad a geir drwy weithio gyda chrefftwyr medrus ar brosiectau byw, bydd cyflogwyr yn cael cymorth gan Swyddog Prentisiaeth CITB a thaliad o hyd at £200 ar ôl cwblhau'r lleoliad. Ceir manylion cyswllt ar gyfer y CITB yng Nghymru yn adran 6 o'r canllawiau hyn.

Lleoliadau gwaith

Mae lleoliadau gwaith yn ffordd werthfawr i brentisiaid a myfyrwyr gael profiad ymarferol yn eu dewis sgil adeiladu traddodiadol a chronni'r amrywiaeth o dystiolaeth sydd ei hangen arnynt i gwblhau eu hyfforddiant galwedigaethol. Gall darparwyr gynnig lleoliadau sy'n para rhwng rhai wythnosau a sawl mis lle y caiff yr hyfforddeion eu cynorthwyo a'u hariannu gan y coleg neu'r cynllun bwrsariaeth.

Caiff darparwyr lleoliadau gyfle i gyfweld darpar hyfforddeion ac yna fel arfer bydd cyfnod prawf byr. Caiff darparwyr lleoliadau gymorth gweinyddol llawn gan y cynllun bwrsariaeth neu'r coleg. Yn gyfnewid am yr oruchwyliaeth a'r adborth a roddir gan y darparwr lleoliadau, bydd y myfyrwyr yn cynhyrchu gwaith defnyddiol gan fod ganddynt rywfaent o sgil eisoes, yn dibynnu ar lefel y cymhwyster y maent yn ei ddilyn.

Bydd darparwyr lleoliadau hefyd yn cael yr opsiwn i gyflogi'r prentis fel cyflogai medrus a chymwys ar ddiwedd y lleoliad. Mae'r ganran uchel o leoliadau sy'n arwain at gyflogaeth llawn amser yn awgrymu bod hyn yn ffordd boblogaidd a diogel i gontractwyr recriwtio staff newydd.

Cysylltwch â'ch coleg Addysg Bellach Lleol i holi am gyrsiau adeiladu yn eich ardal. Ceir rhagor o wybodaeth am gynlluniau bwrsariaeth yn yr adran ar 'brentisiaethau a bwrsariau' isod.

Astudiaeth achos - Yr Hen Gapel, Llanrhydowen, Ceredigion

"Ymunais â chynllun bwrsariaeth Canolfan Tywi ym mis Medi 2014. Mae wedi rhoi'r cyfle i mi ddysgu sgiliau newydd/hen sgiliau a gweithio gyda chrefftwyr profiadol ar brosiectau

cyffrous gyda rhai o'r adeiladau hanesyddol mwyaf diddorol. Roedd fy lleoliad cyntaf gyda Towy Project Ltd yn gweithio ar Yr Hen Gapel, Capel rhestredig Gradd II yng Ngheredigion, sy'n llawn hanes lleol.

O'r diwrnod cyntaf, roedd yn brysur iawn. Roedd angen i ni dynnu rhai elfennau yn ofalus yn cynnwys y pulpud, ffenestri a drws, eu dogfennu yn unol â darluniadau'r pensaer, yna eu cludo'n ôl i'r gweithdy er mwyn gwneud y gwaith saer cymhleth yr oedd angen ei wneud arnynt i'w hatgyweirio. Mae'n rhaid i mi gyfaddef fy mod braidd yn nerfus wrth dynnu'r ffenestr godi gyntaf honno allan ond cefais fy annog gan y crefftwyr profiadol yn Towy Projects i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y gwaith.

Rwy'n deall y gall fod yn anodd ac yn llafurus weithiau i drosglwyddo'r sgiliau hyn i bobl lai profiadol, yn enwedig pan fydd gennych derfynau amser i'w bodloni fel dyddiadau dod i ben trwyddedau ystlumod neu pan fyddwch yn peri oedi i grefftau eraill, ond roeddent yn barod iawn i drosglwyddo'r wybodaeth honno, gan egluro i ddechrau, ac yna ddangos y technegau sy'n angenrheidiol i wneud y gwaith atgyweirio ac yna roi cyfle i mi ddysgu drwy brofiad ymarferol.

Drwy gydol yr hyfforddiant cychwynnol, cewch eich atgoffa ynghylch gwaith atgyweirio gonest da, bod angen ymyrryd cyn lleied â phosibl a chadw cymaint o'r adeiladwaith hanesyddol â phosibl, ond weithiau bydd greddf sy'n deillio mwy o waith saer prif ffrwd yn gwneud i chi ofyn pam eich bod yn treulio mwy o amser yn atgyweirio gwrthrych pan fyddai'n strwythurol well rhoi gwrthrych hollol newydd yn ei le. Un o'r pethau allweddol a ddangosodd tîm Towy Projects dro ar ôl tro oedd eu gwerthfawrogiad o'r adeilad a'i arwyddocâd hanesyddol, a'u hegwyddor o gwblhau'r gwaith atgyweirio tra'n cadw cymaint â phosibl o hanes yr adeilad gwreiddiol drwy effeithio cyn lleied â phosibl ar y strwythur. Roedd yn galonogol gweld hyn ar waith mewn prosiect byw.

Roedd y prosiect a'r cynllun yn gyffredinol yn brofiad dysgu gwych, nid dim ond y sgiliau ymarferol a gofynion biwrocrataidd prosiect adfer hanesyddol, ond hefyd y meddylfryd sydd ei angen i wneud y gwaith hwn. Drwy gydol fy hyfforddiant rwyf wedi cwrdd â llawer o grefftwyr ac aelodau o'r cyhoedd sy'n amau p'un a oes angen mynd ati i ddiogelu treftadaeth a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â hynny, ond rwyf wedi dysgu i amddiffyn y gofyniad am y

sgiliau hyn a'r rhan y maent yn eu chwarae wrth gynnal ein treftadaeth gyfoethog." *Julian Baker, cyn fyfyrwr bwrsariaeth*

Prentisiaethau

Mae'r brentisiaeth draddodiadol yn cyfuno astudio yn un o'r colegau yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau adeiladu â phrofiad ar y safle dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd. Ceir cyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi prentisiaid hyd at Lefel 2. Fel cyflogwyr prentisiaid, efallai y bydd cwmnïau'n gymwys i hawlio grant ychwanegol gan y CITB.

Mae dau gynllun prentisiaeth a rennir hefyd yn gweithredu yng Nghymru. Caiff prentisiaid brofiadau amrywiol ar y safle drwy weithio ar brosiectau ar gyfer mwy nag un cwmni adeiladu, yn ogystal â dilyn cwrs diwrnod mewn coleg lleol er mwyn cwblhau eu cymhwyster prentisiaeth llawn.

Yn aml, caiff prentisiaid eu cyflogi gan y cynllun prentisiaeth. Mae'r cynlluniau yn rheoli ac yn talu am y broses o recriwtio a chyflogi prentisiaid, yn ogystal â'u hyfforddi a'u mentora. Fel arfer, darparwr y lleoliad sy'n gyfrifol am dalu cyflog cymharol fach y prentis yn gyfnewid am y gwaith a wneir ganddo.

Mae cynllun prentisiaeth a rennir yn galluogi cwmnïau i fwynhau buddiannau cymryd prentis brwdfrydig a gweithgar am gyfnod cyfyngedig heb unrhyw risg hirdymor na chost hirdymor i'r busnes. Gall y dull hyblyg hwn fod yn fanteisiol iawn i fusnesau bach a chanolig, y mae'n bosibl nad oes ganddynt yr amser na'r adnoddau i gymryd prentis llawn amser. Mae hefyd yn addas iawn ar gyfer y mathau o brosiectau y mae Cadw yn debygol o'u cefnogi drwy'r cynllun grant adeiladau hanesyddol.

Bwrsariau

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyrsiau a leolir mewn colegau sy'n cynnig arbenigedd mewn sgiliau adeiladu traddodiadol ar Lefelau 2 a 3. Llenwir y bwlch hwn gan y Rhaglen Bwrsariaeth Adeiladu ein Treftadaeth, a gynhelir gan Ganolfan Tywi a'r Ganolfan Adeiladu Naturiol. Mae'r cwrs 12 mis hwn yn arwain at NVQ Lefel 3 mewn gwaith saer maen, gwaith saer neu waith plastiro. Er nad yw'r cynllun yn derbyn mwy o ymgeiswyr newydd ar hyn o

bryd, mae'r myfyrwyr olaf i gael eu derbyn yn dal i gwblhau eu cymhwyster ac yn chwilio am leoliadau gwaith.

Astudiaeth achos - Pwll Nofio Parc Ynysangharad, Pontypridd

"Mae darparu lleoliad gwaith yn ymrwymiad mawr o ran amser ac ymdrech i unrhyw gontractwr, felly mae dod o hyd i'r myfyriwr cywir yn allweddol er mwyn sicrhau lleoliad llwyddiannus. Mae dealltwriaeth sylfaenol o'r ddisgyblaeth gwaith a ddewiswyd yn ddefnyddiol, ond yn bwysicach na dim, mae'n rhaid i'r myfyriwr ddangos dyhead oherwydd ni fydd yn llwyddo fel arall.

Byddwch yn gwybod pan fyddwch wedi dod o hyd i fyfyrwr unigol delfrydol, oherwydd o'm profiad i, heb eithriad, bydd yn dangos awch am wybodaeth, sydd bron yn obsesiynol weithiau, a fydd yn amlwg o ddechrau'r lleoliad. Mae Dominic yn enghraifft o hyn. Ymunodd Dominic â ni ar Leoliad Bwrsariaeth a chwaraeodd ran bwysig yn y gwaith o adnewyddu'r gwaith coed hanesyddol ar brosiect Pwll Nofio Pontypridd.

Roedd Dominic eisoes yn wneuthurwr cypyrddau cymwys, ac roedd yn awchu am wneud gwaith maes; felly cofrestrodd ar gwrs NVQ Lefel 3 mewn Gwaith Saer Traddodiadol drwy'r Cynllun Bwrsariaeth gyda Chanolfan Tywi yn Llandeilo. Gwnaethom gytuno i gymryd Dominic ar leoliad a sylwais yn syth ar ei angerdd a'i frwdfrydedd cyson drwy gydol ei leoliad Bwrsariaeth 6 mis o hyd gyda ni. O ganlyniad, nid oedd gennym unrhyw amheuaeth ynghylch cynnig cyflogaeth llawn amser iddo ac mae Dominic bellach yn aelod o'n tîm gwaith saer ac yn helpu i fentora'r myfyriwr diweddaraf sydd ar leoliad gyda ni." *Darparwr lleoliadau, Mike Williams, Taliesin Conservation Ltd.*

Diwrnodau hyfforddi ar y safle

Yn aml, mae'r mathau o brosiectau y mae Cadw yn debygol o'u cefnogi yn lleoliadau delfrydol ar gyfer cyrsiau byr wedi'u targedu, gweithdai ymarferol neu ymweliadau safle i brentisiaid, myfyrwyr ar gyrsiau adeiladu, gweithwyr adeiladu proffesiynol neu gynrychiolwyr o awdurdodau lleol.

Astudiaeth achos - Castell Aberteifi, Aberteifi

Diben y diwrnod oedd cyflwyno'r myfyrwyr ar y Cynllun Bwrsariaeth Adeiladu ein Treftadaeth i'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â rhedeg prosiect cadwraeth mawr a rhoi cyfle iddynt gyfarfod â'r gweithwyr proffesiynol a oedd yn cymryd rhan ynddo. Yn y bore, gwnaethant ddysgu am nodweddion cadwraeth gwahanol y safle - archaeoleg, gardd hanesyddol gofrestredig, adeiladau rhestredig ac ystlumod gwarchodedig - yn ogystal â siarad â'r pensaer ynghylch sut y llwydodd i gydbwyso'r rhain â ffactorau eraill, fel gofynion y Rheoliadau Adeiladu a phartneriaid cyllido. Ar ôl cinio, aeth y myfyrwyr ar daith o amgylch y safle.

Fel y nododd un myfyriwr, "Yn fy marn i, mae'n werthfawr i bobl nad ydynt wedi gweithio ar brosiect fel hyn gael cipolwg ar waith pobl eraill, pan fydd yn mynd rhagddo, nid dim ond pan fydd wedi'i orffen."

Opsiwn arall fyddai cynnal y Dyfarniad Lefel 3 dau ddiwrnod o hyd 'Deall Gwaith Atgyweirio a Chynnal a Chadw Adeiladau Traddodiadol Cyn 1919.' Mae hwn yn gwrs a achredwyd sy'n deillio o unedau cadwraeth y Diploma NVQ Lefel 3 llawn. Mae wedi'i gwtogi i ddau ddiwrnod er mwyn sicrhau ei fod yn hygyrch ac yn fforddiadwy. Ceir arholiad amlddewis ar ddiwedd y cwrs. Mae'n cyfrif fel dau gredyd a gellir ei ddefnyddio fel dysgu blaenorol ar gyfer y sawl sy'n dymuno cyflawni'r Diploma NVQ Lefel 3 llawn yn ddiweddarach.

Gweithwyr proffesiynol, yn cynnwys penseiri a syrfewyr

Gweithdai, lleoliadau a gweithgareddau eraill

Yn yr un modd â'r diwrnodau hyfforddi ar y safle ar gyfer prentisiaid a myfyrwyr, yn aml mae'r sefydliadau proffesiynol yn chwilio am gyfleoedd i gynnal ymweliadau safle, gweithdai a theithiau astudio. Gall y rhain gyfrif fel Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP), sy'n aml yn un o ofynion aelodaeth o'r sefydliadau hyn.

Gall fod cyfleoedd i ddatblygu lleoliadau gwaith ac interniaethau ar gyfer myfyrwyr a graddedigion sydd am ddatblygu gyrfa mewn cadwraeth adeiladau er mwyn gweithio ochr yn ochr â phensaer neu syrfewr. Gall prosiectau a ariennir gan grant hefyd wneud astudiaethau achos da er mwyn helpu i gefnogi ceisiadau am achrediad cadwraeth gan y cyrff proffesiynol. Gan fod Cadw yn bwriadu ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr proffesiynol arweiniol ac

allweddol feddu ar achrediad cadwraeth yn y dyfodol, mae prosiectau grant adeiladau hanesyddol yn rhoi cyfle defnyddiol i baratoi ar gyfer hyn.

Perchenogion adeiladau, staff a gwirfoddolwyr

Gwaith cynnal a chadw ac ôl-ofal

Wrth i'ch prosiect adeiladu dynnu at ei derfyn, mae'n bwysig eich bod yn rhoi mesurau ar waith er mwyn sicrhau bod gwaith cynnal a chadw ac ôl-ofal priodol yn cael ei wneud ar eich adeilad neu safle. Ar ddiwedd y prosiect, mae'n arfer da i'r pensaer cadwraeth neu'r syrfëwr gyflwyno set lawn o gynlluniau adeiladu a chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio unrhyw gyfarpar newydd a osodwyd. Bydd rhai gweithwyr proffesiynol hefyd yn darparu cynllun cynnal a chadw wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer adeilad. Er hyn, gall hyfforddiant ymarferol mewn cynllunio gwaith gynnal a chadw rheolaidd, cynnal archwiliadau cynnal a chadw a chynnal coflyfr adeilad fod yn werthfawr iawn, yn enwedig pan fydd ymddiriedolaethau neu grwpiau gwirfoddol dan sylw. Gall hyn fod yn destun hyfforddiant diwrnod neu hanner diwrnod gan y pensaer neu'r syrfëwr.

Bydd cymryd fideo o'r digwyddiad hyfforddiant yn rhoi adnodd parhaus i chi y gellir ei ddefnyddio i hyfforddi gwirfoddolwyr newydd neu addysgu ymwelwyr ynghylch yr agwedd bwysig hon ar ofalu am adeilad hanesyddol. Efallai y bydd gan eich coleg lleol fyfyrwyr a allai helpu yn hyn o beth.

4. Cyfleoedd mynediad

Mae llawer o adeiladau hanesyddol eisoes yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol a hanes lleol. Er enghraifft, caiff Gŵyl Drysau Agored ei threfnu gan Cadw ac mae'n rhedeg drwy fis Medi bob blwyddyn. Mae'n ddathliad o bensaernïaeth a hanes Cymru. Mae'n rhoi cyfle i ymwelwyr a thrigolion lleol ymweld â llefydd nad ydynt ar agor i'r cyhoedd fel arfer, neu i ymweld â safleoedd sydd fel arfer yn codi tâl am ddim.

Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn gyfle delfrydol i gynnwys plant ac oedolion fel ei gilydd mewn gweithgareddau sy'n egluro pwysigrwydd defnyddio'r deunyddiau, y technegau a'r sgiliau cywir ar gyfer pob adeilad hŷn. Gallai digwyddiadau gynnwys sesiynau rhagflas neu arddangosiadau o sgiliau adeiladu traddodiadol, teithiau 'cap caled' o amgylch y prosiect cadwraeth er mwyn egluro beth sy'n cael ei wneud a pham, neu weithgareddau y bwriedir

iddynt annog pobl i wneud gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar eu heiddo eu hunain. Er enghraifft, gellid cynnal 'cyngorfeydd hen dai' er mwyn rhoi cyngor proffesiynol am ddim i berchenogion cartrefi.

Yn aml, bydd sefydliadau fel y Gymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol (SPAB), Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) a cholegau lleol a chyflenwyr deunyddiau adeiladu traddodiadol yn fwy na bodlon i gymryd rhan yn y math hwn o ddigwyddiad gyda stondinau ac arddangosiadau.

Ceir rhagor o wybodaeth am ŵyl Drysau Agored ar wefan Cadw

<http://cadw.gov.wales/opendoors/?skip=1&lang=cy>

5. Cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gweithgareddau mynediad drwy grantiau adeiladau hanesyddol

Wrth baratoi cais am grant, hoffem i chi ystyried sut y gallai eich prosiect gyfrannu at gynyddu sgiliau a rhoi cyfleoedd i gael hyfforddiant ac ennill cymwysterau. Dylai cynigion gyfateb i faint a natur y cais am grant. Mae prosiectau mawr neu dymor hwy yn debygol o gynnig cyfleoedd mwy amrywiol, ond gall prosiectau bach yn aml gynnig profiad ymarferol gwerthfawr.

Er nad yw'r cynllun grant adeiladau hanesyddol yn cynnig cyllid ychwanegol i dalu am y gweithgareddau hyn, gellir gweithredu llawer o'r awgrymiadau yn adran 3 heb fawr ddim cost, os o gwbl, i'r ymgeisydd. Er enghraifft, bydd y rhan fwyaf o gwmnïau adeiladu yn gymwys i gael cymorth, grantiau a gostyngiadau gan y CITB tuag at gost cyrsiau hyfforddiant cydnabyddedig. Gall fod cyfleoedd hefyd i fanteisio ar ffynonellau cyllid eraill er mwyn helpu i gefnogi digwyddiadau hyfforddi. Er enghraifft, mae llawer o brosiectau Cronfa Dreftadaeth y Loteri yn cynnwys elfen o gymorth grant ar gyfer gweithgareddau hyfforddi. Neu, gall fod cyfle i weithio mewn cydweithrediad â chynghorau sir, colegau lleol neu ddarparwyr hyfforddiant eraill i gynnal digwyddiadau hyfforddi ar y safle.

Cyflwyno gweithgareddau drwy'r contract adeiladu

Fel arfer, caiff grantiau adeiladau hanesyddol eu cynnig ar yr amod bod cynghorydd proffesiynol addas, fel pensaer, syrfêwr neu beiriannydd ag achrediad cadwraeth, yn cael ei

gyflogi gan yr ymgeisydd i archwilio ac ardystio'r gwaith wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau. Bydd eich cynghorydd yn arwain y broses gaffael i benodi contractwr. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi gynnwys cymal yn y contract yn nodi'r cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a dargedwyd a'r cyfleoedd mynediad y disgwylir i'r contractwr eu cyflwyno yn ystod y prosiect adeiladu. Gall fod yn briodol gofyn i gwmnïau sy'n tendro am waith hefyd ddarparu cynllun hyfforddi fel rhan o'u cais er mwyn dangos sut y caiff eu cyflogeion a'u hisgontractwyr eu huwchsgilio, er enghraifft.

Mae cynnwys cymalau ar ddatblygu sgiliau a mynediad yn y contract adeiladu yn cynnig ffordd syml a theg o gyflawni'r buddiannau ychwanegol hyn ar gyfer unrhyw fath o brosiect cadwraeth. Ceir enghraifft yn yr Atodiad. Ceir rhagor o ganllawiau yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru 'Budd i'r Gymuned: Sicrhau'r Gwerth Gorau am Arian Cymru 2014.' Er bod y canllawiau hyn wedi'u hanelu at sefydliadau yn y sector cyhoeddus, mae llawer ohonynt yn dal i fod yn berthnasol i'r sector preifat a'r sector gwirfoddol. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer ystod fwy o asiantaethau cymorth nag a geir yma. Dilynwch y ddolen ganlynol i weld y ddogfen hon:

<http://gov.wales/topics/improvingervices/bettervfm/publications/community-benefits-2014/?skip=1&lang=cy>

Nid yw Cadw yn disgwyl i ddarpariaeth hyfforddiant fod yn rhan o'r meini prawf dyfarnu a ddefnyddir gennych i ddewis contractwr. Yn hytrach, rydym yn annog ymgeiswyr a'u cynghorwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth â'r contractwr llwyddiannus er mwyn sicrhau y caiff y cyfleoedd a nodir eu cyflwyno. Mae hyn yn golygu y dylai cynigion hyfforddiant a mynediad fod:

- yn berthnasol i'r contract
- yn berthnasol i'r fanyleb
- yn gymesur â maint a hyd y prosiect
- mor benodol â phosibl.

Mae'n bwysig y caiff cyfleoedd i hyrwyddo cyfleoedd datblygu sgiliau a mynediad eu hystyried o'r cychwyn cyntaf ac y caiff cyflawniad ei fonitro a'i werthuso drwy gydol y prosiect. Ceir rhagor o ganllawiau ar gamau'r broses isod. Dylid darllen y rhain ochr yn ochr â'r nodiadau

cyfarwyddyd ar y ffurflen gais am grant adeiladau hanesyddol a'r meini prawf ar gyfer cael cymorth grant:

<http://cadw.gov.wales/historicenvironment/help-advice-and-grants/grants/historicbuildings/?skip=1&lang=cy>.

Camau allweddol o'r contract adeiladu

1. Cyflwyno cais am grant adeiladau hanesyddol

Mae'n syniad da cyflwyno cynigion cychwynnol ar gyfer darpariaeth datblygu sgiliau a mynediad gyda'ch ffurflen gais. Ni fyddwn yn defnyddio'r cynigion hyn i asesu teilyngdod eich cais, ond os caiff grant ei ddyfarnu, bydd yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer trafodaeth bellach.

2. Ymgorffori gweithgareddau datblygu sgiliau a mynediad mewn dogfennau tendro

Os bydd y cais yn llwyddiannus, mae'n debygol y bydd eich cynnig grant yn ddarostyngedig i amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gyflwyno gweithgareddau datblygu sgiliau neu fynediad. Os felly, bydd angen i chi ddatblygu eich cynigion â'ch cynghorydd proffesiynol a'ch partneriaid, fel y coleg lleol neu reolwyr y cynllun bwrsariaeth, tra bod y fanyleb a'r dogfennau contract eraill yn cael eu paratoi. Bydd arolygwyr adeiladau hanesyddol Cadw yn gallu cynnig arweiniad i chi ar yr adeg hon.

Byddwch yn benodol a chynlluniwch ymlaen llaw. Os byddwch yn nodi hyfforddiant, mae angen gwneud mwy na dim ond ychwanegu bod yn rhaid i hyfforddiant gael ei gynnwys yn y broses dendro. Cydweithiwch yn agos â'ch tîm proffesiynol er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau rydych am eu cynnwys yn cael eu nodi'n glir. Nodwch pa fathau penodol o hyfforddiant neu gyfleoedd mynediad sy'n ofynnol, pwy sy'n gyfrifol am gyflwyno'r rhain a pha adnoddau fydd eu hangen, fel deunyddiau, dillad diogelwch neu amser staff. Nodwch ofynion hyfforddiant yn glir yn eich holl ddogfennaeth ar gyfer y prosiect fel y byddech yn ei wneud ar gyfer unrhyw waith arall.

Dylai unrhyw hysbyseb gychwynnol, gwahoddiad i dendro neu bapurau briffio tendrwyrr gynnwys manylion y cynigion ac egluro y bydd disgwyl i'r contractwr a ddewisir ddarparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd mynediad.

Mae'n rhaid i'r fanyleb a dogfennau contract eraill gael eu cyflwyno i Cadw i'w cymeradwyo cyn mynd allan i dendr.

3. *Gwerthuso tendrau a dyfarnu contractau*

Os byddwch yn dymuno, gallwch gynnwys datblygu sgiliau fel rhan graidd o'ch gwerthusiad, er nad yw hyn yn un o ofynion y cynllun grant adeiladau hanesyddol. Pa ddull bynnag a gaiff ei fabwysiadu, mae'n bwysig sicrhau bod y contractwr llwyddiannus wedi dychwelyd y wybodaeth ofynnol a bod ei fwriadau'n glir. Dylid cyflwyno unrhyw wybodaeth neu gynigion ychwanegol a gyflwynir gan y contractwr a ddewisir i Cadw roi sylwadau arnynt.

4. *Rheoli contractau*

Ar ôl cytuno ar y gweithgareddau ac ar ôl i'r gwaith ddechrau, dylai eich contractwr a/neu gynghorydd proffesiynol baratoi adroddiadau rheolaidd ar y cynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn yr allbynnau datblygu sgiliau a mynediad fel rhan o'r broses o reoli'r prosiect. Rhaid anfon copiâu o'r adroddiadau i Cadw. Bydd methiant i wneud hynny yn debygol o arwain at oedi cyn talu'r hawliadau interim neu derfynol.

5. *Adborth ac adolygu*

Ar ddiwedd y prosiect, rhaid cynnal ymarfer gwerthuso terfynol. Rhaid iddo fod yn ansoddol yn ogystal ag yn feintiol. Er enghraifft, dylai gofnodi nifer y cyfranogwyr, nifer yr oriau a'r math o ddysgu neu weithgaredd mynediad a ddarparwyd. Dylai hefyd gynnwys adborth ar berthnasedd a gwerth y gweithgaredd. Gellid gwneud hyn drwy gynnwys dyddiaduron lleoliadau gwaith neu grynoded o holiaduron adborth ar gyfer gweithgareddau grŵp.

Mae'r gwerthusiad a'r adolygiad hwn yn bwysig, nid dim ond ar gyfer y prosiect unigol, ond hefyd fel ffordd o ddatblygu a rhannu arfer da ac astudiaethau achos llwyddiannus.

Cyflwyno gweithgareddau y tu allan i'r contract adeiladu

Mae'n debygol y bydd angen i rai o'r gweithgareddau gael eu cyflwyno y tu allan i'r contract adeiladu. Wrth ddewis pensaer, er enghraifft, fel amod ar gyfer ei benodi, gallech nodi bod

yn rhaid iddo ddarparu hyfforddiant ar archwiliadau cynnal a chadw a choflyfrau adeiladau ar gyfer perchenogion adeiladau neu wirfoddolwyr.

Enghraifft arall fyddai cymryd rhan yng Ngŵyl Drysau Agored os nad yw'r prosiect ar gam addas i ganiatáu mynediad i'r cyhoedd. Mewn achosion o'r fath, er y bydd y contractwyr wedi gadael y safle, gallech gynllunio gweithgareddau ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Fodd bynnag, mae'n dal yn bwysig eich bod yn dweud wrthym beth rydych yn ei gynllunio a'ch llwyddiant yn hyn o beth.

6. Cysylltiadau defnyddiol

Cyngor ar gyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa

Porth Sgiliau

Datblygwyd y Porth Sgiliau gan Lywodraeth Cymru fel un system ymgysylltu, asesu a chyfeirio a fydd yn darparu gwasanaeth di-dor ar gyfer busnesau ac unigolion sy'n ceisio cymorth sgiliau yng Nghymru.

Ar gyfer cyflogwyr, mae'n cynnig dull o gynnal asesiad sgiliau er mwyn llywio'r broses o ddatblygu cynllun dysgu busnes. Bydd cynghorwyr o dîm Llinell Gymorth Busnes Cymru yn helpu cyflogwyr i nodi'r ddarpariaeth sgiliau berthnasol sydd ar gael i ddiwallu anghenion hyfforddi'r busnes.

Mae'r Porth Sgiliau ar gyfer unigolion yn adeiladu ar y gwasanaeth presennol ar gyfer oedolion a reolir gan Gyrfa Cymru. Mae'n cynnig gwasanaeth llinell gymorth dros y ffôn ac ar-lein er mwyn helpu pobl sy'n chwilio am waith neu sydd am gael hyfforddiant i ddatblygu eu gyrfaedd. Mae mentora pellach ar gael hefyd pan fo'i angen drwy gymorth wyneb yn wyneb.

Ceir rhagor o wybodaeth i gyflogwyr yn:

<https://business.wales.gov.uk/skillsgateway/cy>

Am ragor o wybodaeth i unigolion, ewch i:

<http://www.careerswales.com/cy/porth-sgiliau/>

Ffôn: 0800 028 4844

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

Mae gwefan CITB yn cynnwys cyfoeth o gyngor defnyddiol i gontractwyr ac unigolion ar amryw o bynciau yn cynnwys grwpiau hyfforddiant lleol a rhanbarthol, rhaglenni prentisiaeth a gaiff eu rhedeg gan CITB, safonau a chymwysterau, grantiau hyfforddi a chymorth i gyflogwyr:

<http://www.citb.co.uk/cy-gb/gwybodaeth-leol1/cymru/>

Mae gwefan bConstructive gysylltiedig CITB yn rhoi mwy o wybodaeth am ddatblygu gyrfaedd yn y diwydiant adeiladu:

www.citb.co.uk/bconstructive

Fforwm Adeiladau Traddodiadol Cymru

Mae'r grŵp hwn yn hyrwyddo datblygu sgiliau adeiladu traddodiadol a materion cynaliadwyedd sy'n ymwneud â phob hen adeilad ledled Cymru. Mae'n rhoi cymorth drwy ddigwyddiadau addysgol, gwasanaethau eiriolaeth ar bwyllgorau adeiladu cenedlaethol a rhannu gwybodaeth. Mae aelodaeth yn agored i bawb sy'n gweithio yn y sector.

Mae'r wefan yn cynnwys manylion cyrsiau a chyfleoedd eraill i ddatblygu sgiliau adeiladu traddodiadol yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnig cyngor i berchenogion cartrefi ar sut i ofalu am hen adeiladau ac yn cynnwys rhestr o sefydliadau a mentrau eraill yng Nghymru sy'n gweithio yn y maes hwn:

<http://www.wtbf.co.uk/cymraeg/>

Y Grŵp Hyfforddi Treftadaeth Cenedlaethol (NHTG)

Mae'r NHTG yn sefydliad gwirfoddol sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwaith parhaus o ddatblygu a darparu hyfforddiant a chymwysterau mewn crefftau adeiladu traddodiadol yn sector treftadaeth y DU. Ymysg gwybodaeth arall, mae gwefan yr NHTG yn rhoi manylion cyrsiau hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu traddodiadol:

www.the-nhtg.org.uk/training-quals

Prentisiaethau

Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB)

Ceir gwybodaeth am brentisiaethau a grantiau CITB ar wefan CITB:

<http://www.citb.co.uk/cy-gb/prentisiaethau-citb-sgiliauadeiladu/>

Mae'r CITB hefyd yn cefnogi dau gynllun prentisiaeth a rennir yng Nghymru:

Y Prentis

Mae'r cynllun hwn yn gweithredu ledled de-ddwyrain Cymru.

www.yprentis.co.uk/index.html

E-bost: enquiries@yprentis.com

Ffôn: 0800 9753 147

Sgiliau Adeiladu Cyfle

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu de-orllewin Cymru.

<http://cyflebuilding.co.uk>

Ffôn: 01554 748181

Cynlluniau bwrsariaeth

Cynllun Bwrsariaeth Adeiladu ein Treftadaeth

Caiff yr NVQ Lefel 3 hwn mewn gwaith saer maen, gwaith saer a gwaith plastro ei ddarparu gan Ganolfan Tywi yn Llandeilo a'r Ganolfan Adeiladu Naturiol yn Llanrwst.

<http://www.tywicentre.org.uk/Cymraeg/foundationsinheritagebursaryscheme/Pages/CynllunBwrsariaethSylfeinimewnTreftadaeth.aspx> neu cysylltwch â Helena Burke

E-bost: HBurke@Carmarthenshire.gov.uk

Ffôn: 01558 824271.

<http://thenaturalbuildingcentre.co.uk/> neu cysylltwch â Ceri Loxton

E-bost: bursary@thenaturalbuildingcentre.co.uk

Ffôn: 07850 330579

Grwpiau hyfforddiant

Sefydlwyd y rhain ledled Cymru i wasanaethu a hyrwyddo buddiannau'r diwydiant adeiladu ac i ddarparu fforwm er mwyn datblygu a gweithredu gofynion hyfforddiant cyflogwyr adeiladu lleol. Maent yn cynnig cyrsiau hyfforddiant am bris gostyngol, y gellir eu trefnu mewn lleoliadau lleol, a chymorth swyddog hyfforddiant y grŵp. Ceir manylion cyswllt y grwpiau hyfforddiant rhanbarthol ar wefan CITB.

<http://www.citb.co.uk/cy-gb/gwybodaeth-leol1/cymru/training-groups-in-wales/>

CSCS ac Asesiadau a Hyfforddiant ar y Safle

Ceir gwybodaeth am y CSCS (Cerdyn Ardystio Sgiliau Adeiladu) yn:

<http://www.cscs.uk.com/what-is-cscs>.

Am ragor o wybodaeth am OSAT (Asesiadau a Hyfforddiant ar y Safle) ffoniwch 0344 994 4433 neu anfonwch e-bost i assessment@citb.co.uk.

ATODIAD

CYMAL ENGHREIFFTIOL O GONTRACT

Defnyddiwyd y cymal hwn mewn contract gan Gyngor Dinas Caerdydd ar gyfer ei brosiect yn Llys Insole.

"Pan ddyfernir y Contract, bydd disgwyl i'r Darparwr llwyddiannus weithio gyda'r Awdurdod er mwyn sicrhau y cyflawnir y buddiannau cymunedol gorau drwy'r Contract. Bydd hyn yn cynnwys:-

- **Cyfleoedd Hyfforddiant**

Mae Cyflogwr yn ceisio hyrwyddo cyfleoedd i gaffael sgiliau a datblygu sgiliau yn y sector treftadaeth. Mae'r prosiect yn cynnig y cyfle i ymgorffori amrywiaeth eang o gyfleoedd hyfforddiant ac mae'n ofynnol i'n Contractwr weithio gyda'r Cyflogwr er mwyn datblygu'r cyfleoedd hyn yn ystod y contract.

Bydd y Contractwr yn datblygu ac yn gweithredu cynllun lleoliadau hyfforddiant seiliedig ar waith ar gyfer hyd at wyth myfyriwr sydd eisoes yn ymwneud â'r sector adeiladu treftadaeth. Bydd y Contractwr yn dilyn y broses a nodir yng Nghynllun Bwrsariaeth (enw) ynghyd â'r ymgynghoriad â'r swyddogion canlynol:.....

Darparir cyfleusterau llesiant y myfyrwyr sy'n cael hyfforddiant gan y Cyflogwr yn (lleoliad y cyfleusterau llesiant).

Bydd y Contractwr yn sicrhau bod Goruchwyliwr/Fforman ar gael i weithio gyda Darparwyr yr Hyfforddiant ar waith rhaglennu a rheoli iechyd a diogelwch, ac arwain gweithgareddau hyfforddiant i fyfyrwyr.

Bydd Unigolyn Cyfrifol y Contractwr, neu reolwr enwebedig cymeradwy arall, yn mynychu cyfarfodydd i drafod, cynllunio a chytuno ar fanylion yr hyfforddiant, yn cynnwys rolau a chyfrifoldebau a raglennwyd, ansawdd, cyfathrebu, iechyd a diogelwch. Dylid caniatáu cyfanswm o 40 awr yn cynnwys teithio o fewn 25 milltir i'r safle.

Bydd y Contractwr yn llunio adroddiad "Gwersi a Ddysgwyd" ar gyfer y prosiect i'r Cyflogwr.

Bydd y Contractwr yn darparu ar gyfer dwy "Daith Ymwelwyr" sy'n gysylltiedig â'r cynllun hyfforddiant ac yn rhoi anerchiad. Bydd y daith yn para oddeutu awr ac yn cynnwys hyd at 20 o ymwelwyr.

- **Buddiannau Eraill**

Bydd y darparwr llwyddiannus yn trefnu, mewn partneriaeth â'r prif Bensaer, 2 ddiwrnod agored 6 awr a gynhelir ar ddechrau cam 1 y prosiect ac ar ddechrau cam 2 y prosiect. Disgwylir y bydd sesiwn y bore yn agored i Swyddogion proffesiynol / rhanddeiliaid allweddol ac y bydd sesiwn y prynhawn yn agored i aelodau'r cyhoedd.

Mae'r Awdurdod am i'r gofynion uchod gael eu cyflawni gan gyd-fynd â'r holl rwymedigaethau cyfreithiol cymwys (boed yn rhai Ewropeaidd neu yn y DU) sy'n ymwneud â chydaddoldeb, peidio â gwahaniaethu, bod yn agored ac yn dryloyw, a dylid darllen a dehongli'r gofynion hyn yn y fath fodd."